
# Dau

*Bethan Nantcyll*



'Nofel sy'n brofiad i'w darllen'

*John Roberts*

# Dau

Bethan Nantcyll

## Pennod 1
## Nant Cwmbran

Ymlusgai'r niwl yn gwrlid trwchus dros lechwedd y graig, ei bresenoldeb tywyll yn fygythiol. Yr ochr arall i'r dyffryn ymwthiai haul swil yr hydref ei belydrau dros y corsydd. Edrychent fel dwy fyddin yn mynd i frwydr, y naill yn herio'r llall. Y tro hwn y niwl a orfu yn dawel fuddugoliaethus, gan fygu pawb a phopeth.

Safai Wiliam Huws wrth ffenest yr estyniad to sinc yn gwylio'r cyfan, a'r sebon eillio yn farf wen, drwchus dros ei fochau a'i ên. Ni welai ddim ond gwaelod yr ardd, a'r hen geiliog coch yn ymsythu'n falch wrth alw ar yr ieir i ddod i fwyta'r tamaid bwyd y bu'n crafu'n eiddgar amdano ers munudau lawer. Sylwodd ar weddillion y rhedyn rhydlyd ar y cloddiau yn plygu dan leithder y niwl. Er iddynt ymdrechu'n wrol i oroesi'r amserau ac atgoffa rhywun am eu bodolaeth, ac am ysblander mawreddog yr haf, roedd eu cyfnod hwythau ar ben. Wrth fyfyrio'n hiraethus felly, dychwelodd Wiliam Huws at y sinc. Roedd stêm dros y drych crwn bychan a hongiai ar y wal. Sychodd ef â chefn ei law ac estyn y gyllell eillio. Yn ofalus a thaclus daeth i ben â'r ddefod wythnosol. Gosododd y gyllell yn ôl ar y soser a sychu ei wyneb yn ysgafn â'r lliain a sodro hwnnw'n ôl ar y bachyn y tu ôl i'r drws. Agorodd y tap dŵr oer a chlirio'r sinc yn daclus. Gwenai ei ddannedd arno o wlybaniaeth y cwpan, rhoddodd rins iddynt a'u sodro yn ei geg. Ac yntau'n gwisgo ei fest gortyn a throwsus ei ddillad nos, buan y teimlodd frathiad yr awel fain wedi iddo agor y drws i'r cyntedd a gysylltai'r estyniad â'r gegin.

Yn y gegin roedd ei ddillad dyddiol wedi eu plygu'n dwt ar y silff uwchben y stof, ac ymhen ychydig funudau teimlai eu cynhesrwydd am ei gorff. Clywodd sŵn crafu wrth y drws cefn, gwyddai'n syth pwy oedd yno. Cerddodd yn araf, ofalus o'r gegin yn ôl i oerni'r estyniad to sinc i agor y drws.

'Tyrd i mewn, yr hen foi,' meddai.

Gwthiodd Pero heibio i goesau'r hen ŵr, a'r tywydd wedi gadael côt ysgafn o leithder ar ei flewyn. Erbyn i Wiliam ddychwelyd drachefn i'r gegin, gorweddai Pero ar y mat o flaen y stof. Eisteddodd Wiliam wrth y bwrdd bychan, sgwarog i fwyta'i frechdan i frecwast, a Phero yn aros yn eiddgar am y crystyn. Cododd gaead y tebot du i wneud yn siŵr fod y deiliach wedi setlo, ac yna ymestyn ei fraich am y bowlen siwgr. Cydiodd yn y llwy a sylwi ar y llythrennau ar ei gwaelod: EEH. Un a berthynai i set o lwyau te a dderbyniodd ei rieni, Evan ac Elen Huws, ar ddydd eu priodas. Syllodd arni, meddyliodd am ei rieni, hiraethodd am dylwyth dwsin y Nant. Roedd yntau, fel y llwy, wedi colli'i set.

Fferm fechan oedd y Nant a safai wrth droed y mynydd. Deugain erw oedd iddi, parsel o dir taclus, yn fynydd, cors a thir pori o gwmpas y tŷ. Roedd talcen y tŷ yn annaturiol o dal gyda dwy fraich yn ymestyn ohono fel petai yn ei ddal yn ei le. Tair llofft, cegin fechan, parlwr byw a pharlwr gorau, heb anghofio'r estyniad to sinc a godwyd gan Wiliam Huws ei hun fel lle i gadw'r twin-tŷb a brynodd ei chwaer, Gwen.

Roedd yn gartra llawn bryd hynny. Llawn sŵn plant, llawn croeso, llawn crio a chwerthin, a llawn cariad. Magodd Evan ac Elen eu dwsin o fewn ei furiau. Magwyd hwy yn sŵn emynau ac adnodau'r Beibl. Magwyd hwy yn barchus a gofalus.

Gŵr addfwyn a gwylaidd oedd Evan Huws, prin y clywid ef yn codi'i lais i roi cerydd. Serch hynny, gwyddai pob un o'r plant pe byddent wedi pechu yn ei erbyn, gan danbeidrwydd ei lygaid gleision. Gŵr tenau, talsyth ydoedd, a'i groen yn euraidd a'i wallt yn dywyll. Roedd yn chwim ei gerddediad a chwim ei ddireidi.

Elen Huws oedd yr un fyddai'n dwrdio, a hynny'n haeddiannol ran amlaf. Hi oedd yr un a fyddai'n cadw trefn. Hi oedd yr un a fyddai'n goleuo'r lamp ac estyn y Llyfr Mawr i'w trwytho yn ei gynnwys yn nosweithiol. Roedd hi'n gymanfa ynddi'i hun. Casglodd ei harian prin i sicrhau fod i'r teulu ddwy sedd yn Libanus, gan na allai'r teulu ffitio i mewn i un. Clamp o ddynes a'i gwallt cringoch yn blethiad o dorch ar ei phen. Roedd yn olau o ran pryd a gwedd, ond roedd ei dwylaw yn goch gan waith dyddiol.

Yn ddiweddar, ac yntau'n unig yn nhawelwch y Nant, tybiai Wiliam Huws iddo glywed eu lleisiau ar y buarth. Yn wir, cododd un o'r troeon hynny i'r ffenest yn y parlwr byw gan iddo gredu iddo glywed llais ei dad yn galw arno o'r weirglodd:

'Gwylia Danial, Wil bach, gwylia Danial, washi.'

Teimlai'n wirion wedi iddo ddychwelyd i'w gadair am iddo ganiatáu i'w feddwl wneud triciau ag o. Fodd bynnag, gobeithiai fod gwirionedd wrth wreiddiau'r castiau, a bod y ddau yno o hyd yn cadw llygaid arno yn unigedd y mynydd.

Dychwelodd o'i fyfyrdodau a gorffen ei frecwast.

Estynnodd am ddrôr y ddresel er mwyn cael goriad y cloc mawr. Roedd yr hen gyfaill ffyddlon bellach angen ei droi awr yn ôl. Safodd ar y stôl gan agor drws gwydr yr hen gloc. Symudodd ei fysedd bregus a'i weindio, gwenai'r hen leuad arno wrth iddo wneud hynny. Roedd traed yr hen gloc hanner troedfedd i mewn yn naear llawr y gegin, gan ei fod yn rhy dal i'r to isel. Taid a nain Evan Huws oedd yn gyfrifol am hynny. Gorffwysai ers canrif yn erbyn wal wen lydan a fochiai allan ryw fymryn yn y gornel. Hon oedd un o'r waliau prin hynny yn y tŷ nad oedd wedi ei gorchuddio â phapur wal. Roedd rheswm am ei noethni. Ar y wal hon y gwelid holl farciau'r gorffennol. Hon oedd y wal a ddefnyddid i fesur taldra pob un o'r dwsin ar yr un dyddiad bob blwyddyn. Y bore hwnnw wrth adael uchelfannau wyneb y cloc, eisteddodd Wiliam ar y stôl gan edrych ar yr holl farciau. Gwelai hwynt oll yn gwenu arno. Gwenodd yntau. Owen Arthur (Now), Dafydd Henry (Defi), Gruffudd John (Gruff), Jên Ann, Megan Wyn, Morris Isaac, Meri Lisi, Neli, Christmas,

Danial, Gwen ac yntau Wiliam, yr efeilliaid. Dwsin dedwydd, meddyliodd wrtho'i hun.

Cododd a byseddodd y marciau a'r blynyddoedd, gan lusgo ei fys o gopa i ddyffryn, ac yna'n ôl i gopa arall. Llinell oedd hi, ond eto'n graith. Oedd, roedd hi'n atgoffa rhywun am y dyddiau da, ond eto roedd yn graith ddirdynnol am ddyddiau tywyll y teulu. Fel pob diwrnod arall, roedd y dyddiau hynny wedi dechrau yn rhai cyffredin, ond gyda'u horiau daeth uffern ar aelwyd y Nant. Newidiodd digwyddiadau'r dyddiau hynny'r teulu am byth, a diffoddwyd y goleuni yn ysbryd Evan ac Elen Huws. Ysgrifen ei rieni oedd y rhan fwyaf a welid ar y wal, ac ambell un gan Jên Ann a Megan Wyn. Er i'r blynyddoedd eu pylu, roeddynt yno'n rhan o'r wal, yn rhan o sylfaen ei gartra, yn rhan ohono yntau. Gwthiodd yr hen Pero ei ben yn dyner o dan law yr hen ŵr, fel petai'n ymwybodol ei fod yn suddo dan don o hiraeth ac angen cysur.

Cododd Wiliam ac estyn y tamaid cig oen bychan o'r oergell. Bu yn y pentra ddoe yn gwneud mymryn o neges, a chael sgwrs â hwn a'r llall yn Siop Preis Papur. Golchodd y cig a'i roi mewn tun yn y popty.

Roedd Wiliam wedi cynefino bellach â'r tawelwch byddarol a'i hamgylchynai'n ddyddiol. Roedd hefyd wedi sylweddoli mai dyma fyddai ei fywyd. Wedi misoedd o ddygymod â'r sefyllfa, penderfynodd y byddai'n rhaid trefnu rhyw fath o amserlen ddyddiol iddo'i hun er mwyn llenwi'r oriau unig. Weithiau byddai trefn yr amserlen yn mynd ar chwâl pan ddeuai ton i'w lorio a'i lethu. Cafwyd cyfnod felly ddoe pan ddychwelodd adra o'r pentra.

Roedd y post wedi gwrthod danfon llythyrau i'r Nant gan fod cyflwr y ffordd drol yn malu'r cerbydau. Canlyniad hyn fu i Wiliam Huws osod hen fin bara ar ben y clawdd pridd wrth geg y ffordd i ddal ei lythyrau. Bob bore Sadwrn byddai Twm Cae Gors yn codi Wiliam, a byddai'r ddau yn mynd i'r pentra a chael paned yng Nghaffi'r Groes. Yna byddai'r ddau yn mynd eu ffyrdd eu hunain, gan gwrdd yn ôl wrth y car bach arian am ddeuddeg. Byddai Twm yn cynnig danfon Wiliam at y tŷ bob wythnos, byddai yntau yn diolch ac yn egluro fod y daith droed yn llesol iddo. Gwyddai Wiliam y byddai Pero yn aros yn ffyddlon amdano wrth y gamfa. Cododd law ar fib-bib Twm ac yna cerdded at y bin bara a'i agor. Cynnig arbennig gan Specsavers oedd un, ac un arall yn ei wahodd i ddiwrnod agored yn y Coleg Amaethyddol. Y trydydd a roddodd ysgytwad iddo. Llythyr i Gwen oedd hwnnw. Amlen frown ac enw a chyfeiriad Gwen mewn llawysgrifen fenywaidd daclus.

Cerddodd adra yng nghwmni Pero, gan roi'r llythyr i bwyso ar y bowlen siwgr ar fwrdd y gegin. Gwyddai'r hen greadur na fyddai Gwen yn dod dros y rhiniog yn llawn hwyl a chwerthin fyth eto. Penderfynodd ei adael yno am y tro, ni fynnai ei agor; wedi'r cwbl, llythyr i Gwen ydoedd. Er nad oedd hi yn y Nant bellach, roedd hi'n dal yno yng ngolwg ei brawd.

Bu'n eistedd yno'n hel atgofion am oriau pan ganodd y ffôn. Mattie Jones Tŷ Capel oedd yr ochr arall yn dweud fod y pregethwr wedi torri ei gyhoeddiad ar fyr rybudd a'i fod yn fwriad ganddynt gael cyfarfod gweddi am chwech. Diolchodd Wiliam Huws iddi am drafferthu i'w ffonio a chytunodd i gymryd rhan. Edrychodd ar y llythyr drachefn, cydio ynddo a'i roi yn nrôr y ddresel gyda'r chwe llythyr arall a ddaeth oddi wrth yr un anfonwr yn ystod y misoedd diwethaf.

GWASG Y BWTHYN